PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 12 | Mawrth 20, 2025 | 50c.

# Dathlu twf:

## Croesawu pum aelod newydd i Saron, Creunant



Gyda llawenydd mawr, rydym yn dathlu croesawu pum aelod newydd i'n teulu eglwysig yn Saron, Creunant: Lyn, Ann, Ceri, Hayley, a Nadia. Mae eu hymrwymiad i gerdded gyda Christ yn fendith enfawr i'n cymundeb.

Rydym yn diolch yn arbennig am Nadia, a gafodd ei bedyddio drwy drochiad yn Saron tua phythefnos yn ôl – y bedydd trochiad cyntaf tu fewn i'n haddoldy yn hanes yr eglwys! Roedd yn foment arbennig, yn adlewyrchiad o waith Duw yn ei bywyd, ac yn llenwi'r gynulleidfa â llawenydd dwfn. Mae pob aelod newydd yn dod â dawn ac angerdd unigryw i'r eglwys: Lyn gyda'i hysbryd helpgar, Ann gyda'i chalon garedig, Ceri gyda'i brwdfrydedd, Hayley gyda'i chynhesrwydd, a Nadia gyda'i stori o ddyfalbarhad a ffydd.

### Croesawu

Wrth i ni eu croesawu, gadewch i ni feddwl am ein cenhadaeth i garu ein gilydd ac i rannu'r Efengyl. Mae'r cyfnod hwn yn ein hatgoffa o'r ffordd mae'r Arglwydd yn gweithio yn ein plith. Croeso cynnes i Lyn, Ann, Ceri, Hayley, a Nadia – boed i chi ddod o hyd i gariad, twf, a heddwch dwfn ar eich taith gyda ni yn yr Iesu.

Rhaid i ni beidio â chymryd 'dŵr yn lle gwin,' sy'n golygu na ddylem wanhau gwirionedd Iesu na'i neges bwerus. Mae'r Efengyl yn annog pob un ohonom i dderbyn Iesu fel y mae, ac i ddod at Dduw gyda chalonnau agored, gan ymrwymo'n llwyr iddo. Fel y mae'n ysgrifenedig yn Hebreaid 13:8, 'Y mae Iesu Grist yr un fath ddoe a heddiw ac am byth.'

### Gwirioneddau Duw

Mae plesio Duw yn dod pan fyddwn yn ymddiried yn hollol yn Ei Air ac yn dilyn Crist heb gyfaddawdu nac addasu'r gwirionedd. Mae'n bwysig cofio mai pwrpas yr eglwys yw bod yn fan lle mae pobl yn dod i adnabod Duw yn well drwy ei Air. Mae ein heglwysi yn cael eu cysegru i fod yn gyfrwng addoliad a dysg ac i rannu'r Efengyl. Y mae'r eglwys yn gymdeithas lle mae gwirioneddau Duw yn cael eu cyflwyno heb gael eu cymylu gan syniadau'r byd. Dylai bob amser aros yn driw i Iesu Grist a'r Beibl, gan ganolbwyntio ar ddilyn y gwirionedd hwnnw, fel y mae.

Mae Duw yn galw pob un ohonom i ddod ato gyda ffydd syml, gan dderbyn Iesu fel y mae ac addoli mewn gwirionedd. Fel mae'n ysgrifenedig yn Ioan 4:24, 'Ysbryd ydy Duw, ac Ysbryd Duw sy'n galluogi pobl i addoli Duw fel y mae mewn gwirionedd.' Dylai ein heglwysi fod yn adlewyrchiad o'r alwad hon, yn fan lle mae'r gwirionedd am Grist yn parhau'n glir ac yn paratoi'r saint i fyw'n ffyddlon iddo. Bydd eglwys sy'n sefyll ar sail Ei Air yn fan lle caiff pobl eu trawsnewid, gan ddod yn Gristnogion sydd â chyfiawnder, cariad a ffydd yn eu calonnau.

**Rhys Locke**

# Gŵyl Ddewi Gellimanwydd, Rhydaman



Cawsom oedfa hyfryd bore Sul 2 Mawrth yn dathlu Gŵyl Dewi. Plant yr ysgol Sul oedd yn arwain ein gwasanaeth ar yr achlysur arbennig hwn. I ddechrau fe gawsom benillion am Dewi Sant a gweddi addas ar gyfer yr achlysur. Wedi inni ganu emyn a gwrando ar ddarlleniadau daeth y plant ymlaen i ganu tair cân yn swynol dros ben. Adroddodd ein gweinidog, y Parchg Emyr Gwyn Evans, hanes Cantre'r Gwaelod i'r plant a'r gynulleidfa niferus gan ei gymhwyso i'n cyfrifoldeb i ofalu am a gwarchod ein hetifeddiaeth fel Cymry a Christnogion Cymraeg. Gwrandawyd ar gân drawiadol 'Seithennyn' gan y band Beganifs sy'n ailadrodd y geiriau 'cofia gau y drws.' Yna cawsom adroddiad o 'Clychau Cantre'r Gwaelod', J. J. Williams;

> O dan y môr a'i donnau,
> mae llawer dinas dlos ...
> Trwy ofer esgeulustod
> Y gwyliwr ar y tŵr
> Aeth clychau Cantre'r Gwaelod
> O'r golwg dan y dŵr.

I gloi oedfa hyfryd fe ganwyd yr emyn, 'Dyro dy gariad i'n clymu', gydag arddeliad.

> Dyro dy gariad i'n clymu,
> dy gariad fyddo'n ein plith;
> dyro dy gariad i Gymru,
> bendithion gwasgar fel gwlith:
> dysg inni ddeall o'r newydd

*parhad ar dudalen 2*

# Gŵyl Ddewi

## Gellimanwydd, Rhydaman – parhad

> holl ystyr cariad at frawd;
> dyro dy gariad i'n clymu,
> dy gariad di.

### Cenedl y Cymry

Ac ar yr adeg yma o'r flwyddyn mor berthnasol yw geiriau Emrys ap Iwan:

> Cofiwch eich bod yn genedl trwy ordeiniad Duw: am hynny gwnewch yr hyn a alloch i gadw'r genedl yn genedl, trwy gadw'i hiaith, a phopeth arall gwerthfawr arall a berthyno iddi.

Yna i barhau â'n dathliadau Gŵyl Dewi, gwnaeth y Gymdeithas baratoi Cawl a Chân ar brynhawn dydd Iau 6 Mawrth yn y neuadd. Cawsom brynhawn hyfryd ymysg ein gilydd yn bwyta a chymdeithasu.

Diolch i bawb am gefnogi ac yn arbennig i'r Gegin Fach am baratoi bwyd mor flasus.

**Edwyn Williams**





# Joseph Rowntree 1836–1925

Faint o siocled fwytaoch chi dros y Nadolig? Gormod efallai? Dywedir fod llawer o bobl yng ngwledydd Prydain yn 'siocoholig'. Ydych chi'n un ohonyn nhw, tybed?

Wel, mae gwyddonwyr yn meddwl bod siocled yn gallu helpu i leihau'r risg o gael strôc, mae'n gallu helpu person i deimlo'n fwy effro, i ymlacio ac i leddfu peswch. Po uchaf yw canran y coco, y gorau yw ansawdd y siocled. A gorau oll os ydym yn prynu bar o siocled Divine, sef siocled Masnach Deg sy'n helpu'r ffermydd teuluol bach yng ngorllewin Affrica drwy dalu pris teg am y coco sy'n cael ei ddefnyddio gan y cwmni.

### Dyngarwr



Wel, ganrif yn ôl i'r mis hwn y bu farw Joseph Rowntree, y Crynwr a'r dyngarwr adnabyddus a'r gwneuthurwr a'r masnachwr siocled llwyddiannus, ar 24 Chwefror 1925.

Fe'i ganed yn Efrog 24 Mai 1836 i Sara a Joseph a oedd yn cynnal siop groser yng nghanol y ddinas. Ar ôl colli'i dad yn 1859 cymerodd y busnes drosodd gyda'i frawd John Stephenson Rowntree. Roedd brawd arall, Henry Isaac yn berchen ffatri siocled yn Efrog ac aeth Joseph i weithio gydag e ym 1859. Roedd y ffatri mewn trafferth a dawn fusnes Joseph a helpodd i'w chodi'n ôl ar ei thraed. Roedd Joseph yn benderfynol o gynhyrchu cynnyrch o ansawdd uchel ac roedd hefyd wedi ymrwymo i les ei weithlu. Roedd yn gyfrifol am lawer o syniadau blaengar yn y ffatri a dyluniodd ffatri newydd, gydag amodau gwaith llawer gwell yno, a agorodd ym 1883. Fe oedd yn gyfrifol am gyflwyno un o'r cynlluniau pensiwn galwedigaethol cyntaf. Rhoddodd lyfrgell i'w weithwyr, addysg am ddim, swyddog lles cymdeithasol, meddyg a deintydd.

### New Earswick

Pan fu farw ei frawd Henry yn 1883 cymerodd Joseph y ffatri drosodd. Ymunodd ei ddau fab, John Wilhelm a Benjamin Seebohm, ag e, a dechrau cyflwyno syniadau newydd i'r busnes, a ysgogwyd efallai gan lwyddiant mawr y Cadbury's yn Bournville.

Dechreuodd Rowntree's hysbysebu, a datblygu cynhyrchion newydd a phoblogaidd, yn enwedig pastiliau ffrwyth. Ffynnodd y busnes, ac ym 1902 galluogodd hyn iddo brynu 150 erw o dir yn New Earswick, y tu allan i Efrog, lle'r adeiladodd gartrefi i deuluoedd incwm isel. Roedd yn credu mai'r ffordd i unioni anghyfiawnderau'r byd oedd drwy daro at eu gwreiddiau yn hytrach na cheisio lleddfu eu heffeithiau gwael. Ym 1904, rhoddodd hanner ei gyfoeth i'r ymddiriedolaethau elusennol a greodd ac mae'r gwaith dyngarol yn parhau hyd heddiw.

### Crynwr

Cymerodd Joseph Rowntree ddiddordeb mawr yn natblygiad cyfleusterau ar gyfer pobl Efrog. Chwaraeodd ran bwysig yn y gwaith o sefydlu llyfrgell gyhoeddus Efrog. Bu hefyd yn athro yn ysgol oedolion y Sul yn Efrog. Gwasanaethodd ar bwyllgorau dwy ysgol y Crynwyr yn Efrog, a phrynodd y tir ar gyfer Ysgol Hill.

Ym 1921 agorodd Barc Rowntree fel cofeb i'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Mawr. Priododd ddwywaith. Gwnaeth ei fab Benjamin Seebohm Rowntree astudiaeth o dlodi, gan gyhoeddi'r canfyddiadau mewn llyfr o'r enw *Tlodi, Astudiaeth o Fywyd y Dref* ym 1901. Cafodd Joseph Rowntree ddylanwad mawr ar waith ei fab. Cymerodd gredoau'r Crynwyr i'w fywyd bob dydd. Roedd yn mynychu cyfarfod Efrog yn rheolaidd. Claddwyd Joseph Rowntree yn ysbyty seiciatryddol The Retreat yn Efrog. Bu'n llywodraethwr yr ysbyty hwn am dros 40 mlynedd. Gadawodd waddol gwerthfawr a dylanwadol ar ei ôl.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn elusen sy'n cynnal llawer iawn o achosion da. Mae'n ariannu ymchwil, er enghraifft, sydd â'r nod o ddatrys tlodi yn y Deyrnas Unedig. Ei nod yw 'ysbrydoli gweithredu a newid a fydd yn creu Teyrnas Unedig ffyniannus heb dlodi.' Yma yng Nghymru wedyn bu'n gymorth i'r rhwydwaith newydd dros heddwch a chyfiawnder. Mae Heddwch ar Waith wedi'i ariannu trwy Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree gyda'r bwriad o gynyddu'r cydweithio rhwng mudiadau heddwch a chyfiawnder er lles pobl a chymunedau Cymru a'r byd.

**(allan o *Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy*, Rhif 6, Chwefror 2025)**

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 20 2025 RHIF 212

# Adroddiad ar waith Cyngor yr Ysgolion Sul

Pleser yw cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw sy'n crynhoi prif weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair yn ystod 2024. Yn 2019 bu i ni greu cynllun strategaeth pum mlynedd ar gyfer 2019–24, gyda'r pwyslais ar gynyddu ein gwaith digidol / gwefannau a lleihau ein gwaith argraffu print. Mae gennym bellach bum gwefan sy'n llawn gwybodaeth ac adnoddau ymarferol, yn ogystal â phresenoldeb ar Facebook, TikTok, X ac Instagram. Crëwyd sianel deledu Gristnogol ar YouTube hefyd, gan grynhoi ynghyd y miloedd o eitemau Cristnogol Cymraeg sydd i'w gweld ar y we.

Tra oedd ffocws y pum mlynedd diwethaf ar ddatblygu ein presenoldeb ar y we, a mwy o adnoddau 'digidol', bydd ffocws y ddwy flynedd nesaf – 2025/6 – ar ymestyn allan yn genhadol. Byddwn yn canolbwyntio ar waith ysgolion yn benodol, drwy ddatblygu adnoddau Cristnogol ar gyfer cefnogi eu gwaith a hefyd helpu eglwysi i ymestyn allan at eu hysgolion lleol yn y gymuned. Rydym wedi derbyn gwaddol arian elusen Mudiad Addysg Grefyddol Cymru, a bydd hwn yn cael ei wario dros y ddwy flynedd nesaf i wireddu rhai o'r amcanion uchod. Y prif adnoddau fydd dau lyfr lliw safonol gwreiddiol yn Gymraeg, un yn canolbwyntio ar hanes datblygiad y ffydd Gristnogol yng Nghymru a'r llall yn darlunio hanes y seintiau Celtaidd. Y gobaith yw eu cyfieithu i'r Saesneg yn ddiweddarach. Byddwn hefyd yn ceisio helpu eglwysi gyda chanllawiau sut i greu cysylltiadau â'u hysgolion lleol.




**Rhai llyfrau a gyhoeddwyd yn ystod 2024**
*Llyfr sticeri storïau Beiblaidd* – llyfr lliwgar fformat mawr, A3
*Llyfr sŵn anifeiliaid y Beibl* – llyfr bwrdd lliwgar gyda 50 botwm electronig sy'n gwneud synau gwahanol
*Llyfr llechen Beiblaidd* – 40 stori Feiblaidd, sgrin ddigidol LCD a *stylus*
*Llyfr lliwio Beibl Bach Stori Duw* – 60 o luniau o'r Beibl poblogaidd hwn
*Gweddïo drwy'r Salmau* – 150 o weddïau gwreiddiol gan Euros Jones Evans yn seiliedig ar y Salmau
*Byw'r Weddi* – Trystan Owain Hughes yn trafod Gweddi'r Arglwydd
*Sut i Weddïo* – addasiad Meirion Morris o lyfr Pete Greig ar arweiniad i weddi
*Gair yn ei Bryd* – cyfrol o erthyglau gan Noel Davies
*Ambell gam drwy'r flwyddyn* – pregethau ac emynau gan Noel Davies
*Gair Duw ar lafar gwlad* – cyfrol yn olrhain tarddiad llawer o ymadroddion Cymraeg
*Ganwyd Iesu: llyfr sŵn y Nadolig* – llyfr pop-yp lliwgar gyda 6 botwm electronig sy'n gwneud synau gwahanol
*Llyfr canu carioci Carolau'r Nadolig* – llyfr bwrdd lliwgar gyda 6 botwm electronig sy'n canu 6 charol wahanol
*Cyfres jig-sos y Gair* – 3 jigso newydd: Geni Iesu / Porthi'r Pum Mil / Arch Noa
*Eglwys y Bobl, 3* – myfyrdodau / anerchiadau Beiblaidd yn dilyn blwyddyn B y Llithiadur
*Dehongli Bywyd a Gwaith Ruth a Llyfr y Pregethwr* – esboniad gan Gareth Lloyd Jones
*Llythyr gobaith, llythyr cariad* – cyfrol ar hunan-les a gofal gan Glyn Wise




**Gwefannau**
**ysgolsul.com – adrannau newydd**
*Cyfres stori Duw* – 50 gwers ysgol Sul ar y we; cyflwyniadau PowerPoint Beiblaidd – 60 stori newydd; ffilmiau Beiblaidd – 30 newydd
*Llyfrau gwersi'r Gwir Ffordd* – 20 newydd: Gweddïo gyda phlant a chardiau gweddi; Cyswllt ysgolion; Plant mewn galar; y cwrs Gweddi a chwrs archwilio ffydd – Cwestiwn

**cristnogaeth.cymru – adrannau newydd**
Iechyd a hunan-les; Cefnogi Dementia; Newid Hinsawdd; Grantiau a nawdd ariannol; Ffydd a chwaraeon; Ffydd a chefn gwlad; Gwaith ysgolion

**gair.cymru**
Ychwanegwyd tua 500 o ffeiliau i'w lawrlwytho

**gobaith.cymru**
Ychwanegwyd 32 cân Gristnogol gyfoes

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## *Adroddiad ar waith Cyngor yr Ysgolion Sul*

*(parhad o dudalen 1)*




**Teledu Cristnogol Cymru**
Ychwanegwyd sianeli newydd, gan gynnwys podlediadau y Cwmni Bach, deunydd astudiaeth Cwestiwn a chaneuon cyfoes yn Gymraeg

**Cyhoeddusrwydd a hyfforddiant**
Rhoddwyd sylw i'r gyfrol *Codi'r Llen: Merched yr Hen Destament a'u Dewisiadau* mewn rhaglen arbennig o *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, a bu eitem ar *Llan Llanast* ar *Newyddion S4C*. Cyhoeddwyd erthyglau yn *Cenn@d* a'r *Tyst*, *Cristion* ac ar ein tudalennau Facebook a chyhoeddwyd ein bwletin blynyddol *CYSylltiad* ym mis Hydref.

Fel rhan o waith CMN (rhwydwaith gwaith plant CTBI) cyflawnwyd gwaith ar ddau gwrs hyfforddiant, sef *Essential Children's Ministry* ac *Essential Family Ministry*, a fydd yn ymddangos ar blatfform digidol TheologyX dan nawdd Cliff College. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethon ni gymryd rhan mewn tair cynhadledd i drafod dyfodol gwaith plant – un yn Llundain yn trafod hyfforddiant gweithwyr a'r llall yn trafod cam-drin ysbrydol, ac un gynhadledd ar lefel Ewropeaidd (ECCE) yn Genefa.

**Medalau Gee**
Yn ystod 2024 cyflwynwyd 10 medal Gee mewn saith lleoliad gwahanol. Braf oedd gweld capeli llawn ar gyfer anrhydeddu selogion lleol.

Mewn dyddiau heriol, diolchwn am bob arwydd gobeithiol a welir ledled Cymru. Diolch am bob arweinydd a gwirfoddolwr sy'n ymdrechu i gynnal gweithgarwch i blant a'u teuluoedd. Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn bwysleisio unwaith eto ein hawydd fel Cyngor i gefnogi sefydlu mentrau newydd (neu aildanio gwaith sy'n dioddef), a'n parodrwydd i gyfarfod i drafod opsiynau a'r hyn sy'n ymarferol a phosib o fewn ein cymunedau lleol.

Diolch am gefnogaeth swyddogion ac aelodau'r Cyngor hefyd i'r gwaith – yn ariannol ac yn ymarferol. Daeth tymor Cadeiryddiaeth Jennie Hurd i ben ddiwedd y flwyddyn, a chroesawyd Mererid Mair i'r Gadair ym mis Ionawr. Trist yw cofnodi y bu farw Mr Idris Hughes, ein cyn-drysorydd, yn ystod yr haf wedi cyfnod o anhwylder. Coffa da amdano a diolch am ei dymor gwasanaeth. Rydym hefyd wedi cael cyfle i groesawu Mrs Kathryn Morris atom fel trysorydd newydd, a diolchwn am yr arbenigedd sydd ganddi ym maes cyllid.

Yn dilyn marwolaeth Mrs Elisabeth James, ein Llywydd Anrhydeddus, yn 2023, yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor penodwyd Mr Rheinallt Thomas i'w holynu. Mae yntau hefyd wedi gwneud cyfraniad anfesuradwy i waith y Cyngor dros flynyddoedd lawer. Pasiwyd hefyd i gyhoeddi *Beibl Coffa Lliw* i blant er cof am Elisabeth James, gan ddefnyddio'r rhoddion a dderbyniwyd er cof amdani i noddi'r gwaith.

I ddarllen yr adroddiad llawn, ewch i wefan ysgolsul.com

Gan ddiolch am bob cydweithrediad ac ymddiriedaeth

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 23 Mawrth, am 6:45yh – Colled**
Bydd Nia Roberts yn Aberystwyth i godi ymwybyddiaeth am hunanladdiad yng nghwmni Gareth Davies, tad sy'n defnyddio'i brofiad o golled i helpu eraill. Daw'r canu mawl o'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd, a chawn berfformiad arbennig gan y gantores boblogaidd Bronwen Lewis

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 23 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Iwan Llywelyn Jones

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 23 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Bryn Williams, Pwllheli

# Undod Cristnogol mewn Byd sy’n Chwalu

WYTHNOS 3

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Cyfiawnder hiliol**

**Darlleniad**
Galatiaid 3:28–9

**Myfyrdod**
Mae parhad hiliaeth o fewn yr Eglwys, yn ogystal â thu hwnt iddi, yn dal i danseilio ein gweledigaeth o undod Cristnogol. Rydym yn trefnu cynulliadau eciwmenaidd rhyngwladol o’r Eglwys ac yn aml yn sôn am y cysylltiadau sy’n ein rhwymo â’r ddynoliaeth gyfan. Ond eto, mae amharodrwydd a gwrthwynebiad o hyd i archwilio gwir natur hiliaeth yn fanwl fel problem strwythurol ar y cyd ac i gyfrif cost ei heffaith.

Yn ystod Wythnos 1, fe wnaethon ni ystyried y rhwystrau a allai fod yn atal pobl rhag mentro i’n mannau eciwmenaidd. Yr wythnos hon ystyriwn sut y gall hiliaeth achosi i bobl brofi rhwystrau rhag perthyn i’r mannau hynny y maent yn bresennol ynddynt oherwydd y duedd i wthio’u profiad i’r ymylon neu leihau eu dioddefaint. Mae ein darlleniad o’r Ysgrythur ar gyfer yr wythnos hon yn un a ddyfynnir yn aml yng ngwaith cyfiawnder hiliol. I lawer, mae’n mynegi’r undod y gelwir arnom i’w gyrraedd ac mae’n fynegiant pwerus o werth cydradd yng ngolwg Duw. Mae eraill yn adrodd profiadau negyddol am y darn hwn yn cael ei ddyfynnu i gyfiawnhau cael gwared ar y cyfle ar gyfer deialog ar faterion hiliaeth gyda’r awgrym na ddylem fod yn siarad am hil gan ein bod ni i gyd yr un fath.

Mae osgoi sgyrsiau am waddol a realiti presennol hiliaeth yn cyfyngu ar lwyddiant ein gwaith ar undod Cristnogol ac yn tanseilio tystiolaeth yr undod hwnnw i’r gymdeithas ehangach. Gwelsom hyn yn ymateb yr Eglwys i’r terfysgoedd a ddechreuodd ym mis Awst 2024, wedi’u hysgogi i raddau helaeth gan gasineb hiliol a senoffobig, a gwybodaeth anghywir a ledaenwyd gan grwpiau ac unigolion ledled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Cafwyd her arbennig i’r Eglwys wrth i rai o ysgogwyr y trais hwnnw fabwysiadu a chamddefnyddio hunaniaeth Gristnogol. Roedd yn rhybudd amlwg o ganlyniadau methu gwreiddio gwaith cyfiawnder hiliol wrth graidd bywyd a chenhadaeth yr Eglwys.

Pen-blwydd eciwmenaidd arwyddocaol arall sy’n cael ei nodi eleni yw 30 mlynedd ers sefydlu’r Sul Cyfiawnder Hiliol. Sut allem ni achub ar y cyfle hwn i fyfyrio ar y gagendor rhwng ein gweledigaeth a realiti gwaith cyfiawnder hiliol?

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**
- Ym mha ffyrdd y mae hiliaeth yn parhau i gael effaith negyddol ar unigolion yn eich cymuned, o fewn a thu hwnt i’r Eglwys, heddiw?
- Sut mae parhad hiliaeth yn effeithio ar y gymuned gyfan?
- Ydych chi’n credu y gallai’r eglwys leol yn eich cyd-destun chi fod yn fwy rhagweithiol ar y mater hwn?

**Gweithredu**
- Allech chi fanteisio ar y cyfle i ddathlu 30 mlynedd ers sefydlu Sul Cyfiawnder Hiliol fel modd o hwyluso sgwrs am heriau cyfredol yng ngwaith cyfiawnder hiliol ac ymateb yr Eglwys?




- Chwiliwch am fodel neu fodelau o arferion da mewn gwaith cyfiawnder hiliol. Gall hyn fod mewn eglwys neu mewn cyd-destun seciwlar. Ystyriwch a oes unrhyw gamau y gallech eu cymryd i rannu’r arferion da hyn.
- Ystyriwch pa negeseuon y mae’r deunyddiau gweledol yng nghyd-destun eich eglwys leol yn eu cyfleu am hunaniaeth a pherthyn: ydyn nhw’n adlewyrchu ymateb i’r cwestiwn ‘Pwy yw fy nghymydog?’ sy’n cynnwys pobl o wahanol genhedloedd, ethnigrwydd a hil? A oes unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â themâu cyfiawnder hiliol?

**Gweddi**
Dduw cariadus,
maddau i ni am fod mor araf
i wynebu realiti hiliaeth yn ein Heglwys
ac yn y gymdeithas ehangach.
Rho nerth inni ddyfalbarhau
pan allem gael ein temtio
i osgoi neu roi terfyn
ar sgyrsiau anodd.
Gweddïwn dros y bobl a’r cymunedau hynny
a glwyfwyd gan waddol hiliaeth,
caethwasiaeth a gwladychu,
a thros y rhai sy’n ofni am eu bywydau
oherwydd hiliaeth a bygythiad o drais heddiw.
Helpa ni i greu gweledigaeth gyda’n gilydd
o fyd heb hiliaeth
i’n hysbrydoli i fynd yn ddyfnach i’r gwaith hwn.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Cymorth i farw

Cefais fy synnu'n ddiweddar gan y ffaith i'r honiadau difrifol ynglŷn ag ymddygiad Gregg Wallace tuag at fenywod gael o leiaf cymaint os nad mwy o sylw'r cyfryngau na chwestiwn dyrys y mesur fu gerbron y llywodraeth, sef y mesur i ganiatáu hawl i oedolyn sydd â gwaeledd angheuol â chwe mis neu lai i fyw gael cymorth meddygol i farw. Ddydd ar ôl dydd fe'n porthwyd â gwybodaeth ychwanegol o'r cyhuddiadau yn erbyn cyflwynydd y rhaglen boblogaidd *Master Chef*. A oedd angen yr holl fanylion arnom? Onid gwell fyddai datgan iddo gael ei wahardd o'i waith a gadael i'r drefn gyfreithiol ddilyn ei chwrs? Onid oes perygl ein bod yn diddori mwy na'r hyn a ddylem mewn budreddi o'r math?

Fis Hydref eleni cynhaliodd Senedd Cymru drafodaeth am gyfreithloni cymorth meddygol i farw. Pleidleisiodd 19 o blaid y cynnig, 26 yn erbyn, ymatalodd 9. Yna, fis yn ddiweddarach, cynhaliwyd pleidlais yn San Steffan, a'r canlyniad: 330 o blaid, 275 yn erbyn. Pe bai'n dod yn gyfreithiol yn ei ffurf bresennol byddai hawl gan y sawl â thystysgrif ofyn am gymorth cyhyd â'i fod yn ymofyn o fewn chwe mis i ddiwedd ei oes a chanddo hefyd dystysgrif dau feddyg. Yn ogystal â hyn byddai angen i'r claf gymryd y cyffuriau i'w ladd ei hun ym mhresenoldeb meddyg. Pwysig nodi na fyddai'n rhaid i'r meddyg gymryd rhan pe bai trefniant o'r math yn groes i'w



gydwybod. Byddai hawl ganddo/ganddi wrthod.

Ni fu'r Eglwys yn gwbl dawedog ynglŷn â'r mater. Mewn llythyr yn yr *Observer* mynegodd nifer o ganghennau'r Eglwys, gan gynnwys Eglwysi Rhyddion Cymru ac aelodau Cytûn, bryderon. Cyflwynaf i'ch ystyriaeth lythyr Esgobion Cymru.

### Datganiad yr esgobion

Mae hwn yn fater hynod o boenus y bydd gwahanol bobl gan gynnwys Cristnogion wedi dod i farn wahanol yn ei gylch, a hynny gyda'r bwriadau gorau. Serch hynny, mae'n rhaid mai'r flaenoriaeth bennaf yw amddiffyn y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas rhag y risgiau sy'n gynhenid yn y mesur hwn. Am y rheswm hwnnw, ni allwn, mewn pob cydwybod dda, gefnogi'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Yn y gwledydd hynny lle mae'r mesur hwn wedi dod i rym ceir tystiolaeth helaeth o'r modd y gall bwriadau da arwain yn gyflym at ganlyniadau gwael ac anfwriadol, ac at ddibrisio bywyd dynol fel y cyfryw. Mae ein ffydd Gristnogol bob amser wedi'i gwreiddio mewn realiti poen a marwoldeb, ond hefyd yng ngwerth anfesuradwy pob person dynol, waeth beth fo'u statws cymdeithasol, eu mynediad at adnoddau, neu eu gallu corfforol neu feddyliol. Yn yr ysbryd hwnnw, a ddangosir inni ym mherson Iesu, rhown ein cefnogaeth ddiffuant i ymestyn y gofal lliniarol gorau posibl i bawb sydd ei angen, fel nad oes unrhyw derfynau ar y tosturi a ddangoswn fel unigolion ac fel cymdeithas.

### Ystyriaethau

Ymhlith y pethau y dylid eu hystyried wrth geisio ffurfio barn bersonol ar y mater mae'r canlynol:

### Sancteiddrwydd bywyd

Mae pob person i'w ystyried yn werthfawr. Gall caniatáu rhoi hawl i glaf derfynu ei fywyd ei hun arwain at ddibrisio bywyd yn gyffredinol. Dibrisio bywyd sydd wrth wraidd rhai o ddoluriau'n dydd, trais a rhyfel ac ati.

### Amddiffyn y rhai bregus

Onid yw'n ddyletswydd arnom ofalu am y gweiniaid, a'r rhai sy'n byw gydag anableddau? Mae posibilrwydd cryf y bydd y cyfryw yn teimlo eu bod dan bwysau wrth i rai fabwysiadu'r syniad mai byd ar gyfer y cryf a'r iach yn unig yw hwn.


*[Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.*]*

**Irfon Roberts**

(allan o'r *Feidr,* Cyfrol viii, Rhifyn 2, 2025, cylchgrawn eglwys Capel Mair, Aberteifi)







# Barn Annibynnol

## Ffrwyth yr Ysbryd

'Ma'r tato'n bwysicach na rhychau taclus!' Dyna, mae'n debyg, oedd un o hoff ddywediadau y diweddar Barchedig Curig Davies, a fu'n Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr rhwng 1942 a 1964. I'r rheiny sy'n arddwyr gofalus a chymen, gall ymadrodd o'r fath daro'n chwithig gan fod graen y rhychau syth a harddwch trefnus yr ardd wedi'i wreiddio'n gadarn ynom.

> Pennaf dymuniad llanc o'r wlad
> yw agor cwys fel cwys ei dad ...

a bu agor cwysi a rhychau unionsyth yn eglureb mewn sawl pregeth a myfyrdod, ond y gwir yw, os nad yw'r rhychau syth a'r gwrysg gwyrdd yn ennyn cnwd da o datws yn y pridd, dydyn nhw ddim yn cyflawni eu pwrpas.



### Dod yn Grist debyg

Mae Mathew (6:15) a Luc (6:43) yn ein rhybuddio rhag cael ein twyllo gan bobl a phethau ffug: 'Wrth eu ffrwythau (neu eu llysiau!) yr adnabyddwch hwynt.' Yn ei lythyr at y Galatiaid mae Paul yn sôn yn fanwl am yr hyn a eilw yn 'ffrwyth yr Ysbryd' mewn ymdrech i annog ei ddarllenwyr i berthyn i Grist. Derbyn Crist yn Waredwr a bod yn agored i ddylanwad yr Ysbryd Glân yw'r allwedd i fod yn Grist-debyg, a nodweddion amlwg hynny yw 'ffrwyth yr Ysbryd'. Mae Cristnogion o fewn cymdeithas yn amlwg drwy eu gweithredoedd da a'u ffordd o fyw.

'Ffrwyth yr Ysbryd,' sylwer, nid ffrwythau pobl feidrol. Yn union fel y waredigaeth a gawn drwy Grist, nid trwy ein hymdrechion ni'n hunain y tyf y ffrwythau hyn ynom. Pwysleisia Paul wrth ysgrifennu at yr Effesiaid:

> Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chi yw hyn; rhodd Duw ydyw; nid yw'n dibynnu ar weithredoedd, ac felly ni all neb ymffrostio. Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi'i drefnu ar ein cyfer o'r dechrau.
> (Effesiaid 2: 8–10).

### Trwy ras

O holl lythyron Paul at gynulleidfaoedd newydd yr hen fyd – at gymunedau eglwysig fel y rhai yng Nghorinth, Rhufain a Thesalonia, yr epistol at y Galatiaid yw'r cryfaf ei ieithwedd. Pwysleisia Paul fod gwaredigaeth yn bosibl i bawb, i'r Iddewon a'r cenhedloedd, trwy ras Duw a chred yng Nghrist. Er bod ein ffydd yn ddiwerth heb weithredoedd (Iago 2:26), ein ffydd yw sail popeth, a thrwyddo cawn ein cyfiawnhau; ein cred a'n ffydd a ddaw gyntaf a'r rheiny'n cael eu perffeithio gan ras Duw a'u hamlygu yn ein gweithredoedd. Anoga Paul ei ddarllenwyr i 'berthyn i Grist' mewn ffordd sy'n eu rhyddhau o'u hen fywyd.

A beth yn union yw'r 'ffrwyth' sy'n nodweddu bywyd y Cristion? Yn ôl Paul (Galatiaid 5:22), o adael i'r Ysbryd reoli ynom, byddwn yn arddangos cariad, sef y cyntaf a'r mwyaf o rinweddau'r bywyd Cristnogol; llawenydd a ddaw yn unig o waith yr Ysbryd Glân ynom; heddwch, sef y tangnefedd sy'n deillio o wir gariad a chymod; amynedd megis y goddefgarwch y mae Duw'n ei ddangos tuag atom ni; caredigrwydd sy'n sail waelodol i'n bywyd bob dydd; daioni tuag at gyd-ddyn a chymdeithas sy'n arddangos ei hun trwy weithredoedd a pherthnasau da; ffyddlondeb i ddilyn Iesu yn agosach; addfwynder tebyg i gymeriad Crist gyda chryfder Duw'n ein gwarchod; a'r hunanreolaeth a fedr ddod yn unig o waith Duw a'i Ysbryd ynom.

**Eurig Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)







*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**
**Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,**
**Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,**
**LL49 9UE**
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

**Alun Lenny**
**Porth Angel, 26 Teras Picton**
**Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX**
***Ffôn:* 01267 232577 /**
**0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*

**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# Dydd Gweddi'r Byd

Ar ddydd Gwener 7 Mawrth fe gynhaliwyd Dydd Gweddi'r Byd. Thema'r oedfa eleni a baratowyd gan ferched Cristnogol Ynys Cook oedd 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol.' Cynhaliwyd gwasanaethau ar hyd a lled y byd ac mewn llawer man yng Nghymru. Dyma rai lluniau o'r digwyddiadau.










# Caersalem, Pontyberem

Nos Lun 3 Chwefror 2025 Adam Jones sef 'Adam yn yr Ardd' oedd gŵr gwadd y gymdeithas. Cafwyd cyflwyniad hwylus iawn a nifer o dips a chyfrinachau am yr hyn gallwn elw o'r ardd.



## Gŵyl Ddewi

Ar nos Lun 3 Mawrth cafwyd noson o ddathlu Gŵyl ein nawddsant. Gweinyddwyd cawl blasus iawn gan Gegin Fach y Wlad a chyflwynwyd eitemau ar lafar ac ar gân gan yr aelodau. Mor freintiedig ydym o gael cymaint o ddoniau amrywiol yn ein plith.





*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*